

## Annwyl (**Rhowch enw**)

Rydym yn cysylltu â chi i'ch annog i weithredu ar addasiad rheoleiddiol sy'n gysylltiedig â marchnadoedd ynni lleol o'r enw P441 ac egluro pam bod hyn yn bwysig i'r sector ynni cymunedol.

Yn gyntaf oll, mae gan brosiectau ynni cymunedol hanes profedig o adfywio cymunedau, darparu swyddi o ansawdd da, ac ysbrydoli prosiectau adeiladu cyfoeth cymunedol eraill yn eu hardal leol.

Ers diwedd y Tariff Cyflenwi Trydan fodd bynnag, mae capasiti cynhyrchu newydd ar gyfer ynni cymunedol wedi arafu'n llwyr fwy na heb. Er gwaethaf hyn, mae ein sector wedi dangos gwytnwch anhygoel - dod o hyd i fodolau busnes newydd sy'n gweithio o fewn y fframwaith presennol ac arallgyfeirio i edrych ar drafndiaeth gymunedol a gwresogi.

Fodd bynnag, mae llawer o brosiectau cynhyrchu newydd yn llwyr ddibynnol ar gylchoedd grant. Byddai caniatáu llwybr i farchnadoedd ynni lleol yn newid hyn - gan ddarparu model busnes cynaliadwy, hunangynhaliol i sefydliadau ynni cymunedol.

Yr hyn mae hyn yn ei olygu yn ymarferol yw'r gallu i gynhyrchwyr cymunedol gloi prisiau ynni gyda deiliaid tai a busnesau lleol am gyfnod o ddegawdau - gan roi sicrwydd incwm i gynhyrchwyr ynni cymunedol ddatblygu cynllun busnes a sicrhau cyllid prosiect, a sicrwydd pris ynni tymor hir i gwsmeriaid fel y byddant yn cael eu hamddiffyn rhag cynnydd annisgwyl mewn prisiau ynni. Byddai effaith hyn ar aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd yn sylweddol.

Gellid hefyd osod prisiau i gymell deiliaid tai i ddefnyddio ynni ar yr adegau pan gaiff ei gynhyrchu'n lleol, a fyddai hefyd yn arwain at ddefnydd mwy effeithlon o'r rhwydwaith dosbarthu, a'n golygu ein bod yn llai dibynnol ar ddatblygu'r rhwydwaith trosglwyddo.

Mae marchnadoedd ynni lleol yn ffordd o ddarparu model busnes hyfyw ar gyfer cynhyrchu cymunedol, ac yn ffordd wirioneddol i gymunedau gyfrannu a gweld manteision targedau sero net.

Dyma sut y gallwch chi helpu:

Mae addasiad rheoleiddiol o'r enw P441 yn cael ei ystyried gan weithgor o fewn Elexon, sy'n goruchwyllo trefniadau masnachu trydan ac sy'n cael ei reoleiddio gan Ofgem. Yn gryno, byddai P441 yn symleiddio'r broses o sefydlu marchnad ynni leol, rhoi'r cysyniad ar sail fwy cadarn, ac yn caniatáu i fwy o gynhyrchwyr trydan o wahanol feintiau sefydlu trefniadau buddiol gyda phobl leol.

Fel ein AS, cysylltwch os gwelwch yn dda â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net Ed Miliband, a Gweinidog Ynni y DU, Michael Shanks er mwyn:

- Esbonio sut y gallai'r model marchnad ynni lleol helpu i fynd i'r afael â phroblemau dybryd, gan gynnwys tlodi tanwydd a chapasiti'r system drydan;
- Eu hannog i gyfarwyddo Ofgem i weithredu polisi i sefydlu marchnadoedd ynni lleol gyda chymhelliant ar gyfer cydbwyso lleol, yn enwedig mewn perthynas â'r addasiad P441 i'r Cod Cydbwyso ac Anheddu, a oruchwylir gan Elexon;
- Eu hannog i gyfarwyddo ac atgoffa Ofgem bod cyflawni sero net a thwf mewn ynni adnewyddadwy yn rhan o'i gylch gwaith, a bod angen ystyried hyn felly ym mhob rhan o'u rheoleiddio, ac i ddal Ofgem yn atebol am hyn; ac
- Yn y tymor hwy, anogwch nhw i'w gwneud hi'n orfodol i gyflenwyr trwyddedig gefnogi ynni cymunedol

Llawer o ddiolch

**(Enw a sefydliad)**